Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau | Dyddiad: | Dydd Gwener, 1 Gorffennaf 2016 |
| | | Rhif Union: | 01824 712554 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 7 GORFFENNAF 2016** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, FFORDD WYNNSTAY, RHUTHUN, LL15 1YN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 26 Mai 2016 (copi ynghlwm).

**5 YSBYTY CYMUNED GOGLEDD SIR DDINBYCH – PROSIECT CYFLEUSTER IECHYD**

Ystyried diweddariad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar y cynnydd gyda'r Prosiect Ysbyty Cymuned Gogledd Sir Ddinbych / Cyfleuster Iechyd.

**9.35 a.m. – 10.10 a.m.**

**6 PROSIECT GOFAL IECHYD SYLFAENOL PRESTATYN A RHUDDLAN IACH**

Ystyried diweddariad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar y cynnydd gyda'r Prosiect Gofal Iechyd Sylfaenol Prestatyn a Rhuddlan Iach.

**10.10 a.m. – 10.45 a.m.**

**EGWYL GYSUR**

**7 BYRDDAU DIOGELU GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 13 - 26)

Ystyried adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (copi ynghlwm) ar ddatblygiad Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

**10.55 a.m. – 11.30 a.m.**

**8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 27 - 46)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio (copi wedi'i amgáu) yn gofyn am adolygiad o raglen waith y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

**11.30 a.m. – 11.40 a.m.**

**9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Derbyn unrhyw ddiweddariad gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

**11.40 a.m. – 11.50 a.m.**

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd) | Y Cynghorydd Ray Bartley (Is-Gadeirydd) |
| Meirick Davies<br>Martyn Holland<br>Pat Jones<br>Dewi Owens | Pete Prendergast<br>Arwel Roberts<br>Bill Tasker |

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU**

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn YSTAFELL BWLLGOR 1a, NEUADD Y SIR, RHUTHUN, Dydd Iau, 26 Mai 2016 am 9.30 am.

**YN BRESENNOL**

Cynghorwyr Raymond Bartley, Jeanette Chamberlain-Jones (Chair), Meirick Davies, Martyn Holland, Pat Jones and Pete Prendergast

Aelod Ward - Y Cynghorydd Joan Butterfield

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Cydlynydd Archwilio (RE) a Gweinyddwr y Pwyllgor (SLW)

Peter James, Rheolwr Adfywio, Llywodraeth Cymru
Graham Worthington, Prif Weithredwr, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn/Pennaf, a
Phil Danson (Cyfarwyddwr Datblygu Busnes, Tai Gogledd Cymru.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Dewi Owens, Arwel Roberts a/ac Bill Tasker

Yn y fan hon, cytunwyd i amrywio trefn y Rhaglen er mwyn rhoi cyfle i siaradwyr Eitem 6 – Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl.

**2 PROSIECT GWELLA TAI GORLLEWIN Y RHYL**

Bu i'r Cynghorydd Joan Butterfield ddatgan cysylltiad personol yn yr eitem hon gan ei bod yn Aelod o'r Ymddiriedolaeth Tai Cymunedol.

Estynnodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones groeso i dri siaradwr gwadd i'r cyfarfod, sef:

- Peter James – Rheolwr Adfywio, Llywodraeth Cymru
- Graham Worthington – Prif Weithredwr,Tai Clwyd Alyn / Pennaf, a
- Phil Danson – Cyfarwyddwr Datblygu Busnes, Tai Gogledd Cymru

Yn y fan hon, ymddiheurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a Pharth y Cyhoedd ar ran yr Arweinydd am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod, yn ei rôl fel Aelod Arweiniol yr Economi oherwydd ymrwymiad blaenorol.

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a Pharth y Cyhoedd yr adroddiad i ddiweddaru ynglŷn â'r cynnydd a wnaed i ddarparu un elfen o raglen Adnewyddu'r Rhyl - Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl.

Nod y prosiect fyddai denu mwy o bobl economaidd weithgar i fyw yn ardal orllewinol y dref, i gefnogi'r economi a sicrhau bod y gymuned yn ffynnu. Cychwynnwyd y prosiect er mwyn newid canfyddiad pobl o'r ardal ac o'r Rhyl yn gyffredinol.

Roedd y prosiect yn bartneriaeth amlasiantaeth rhwng Llywodraeth Cymru (LlC), Cymdeithasau Tai, y Cyngor a phartneriaid sector preifat.

Rhoddwyd cyflwyniad gan Peter James, Rheolwr Adfywio (LlC) a oedd yn amlinellu'r canlynol:

- Hanes a chefndir y prosiect
- Gwahanol gamau yn y gwaith o gynllunio'r gwahanol lefelau a mathau o ymyrraeth angenrheidiol
- Disgrifiodd yr ardal ymyrraeth, cyllideb y prosiect ac amserlenni ar gyfer y prosiect
- Prosiectau unigol a gwblhawyd, a oedd ar y gweill ar hyn o bryd neu yn yr arfaeth ar gyfer pob un o'r 6 parth
- Materion a oedd wedi codi yn ystod y prosiect - yn cynnwys y storïau o lwyddiant, materion cymhleth, sut y cafodd y rheini eu goresgyn a'r gwersi a ddysgwyd wrth ddarparu'r prosiect, a
- Materion yn y dyfodol / camau nesaf.

Eglurodd Peter James (LlC) pam fod LlC wedi penderfynu bod angen ymyrraeth yn y Rhyl. Ymgais ydoedd i wyrdroi'r dirywiad parhaus yn yr ardal gan fod amodau tai'n wael, a hynny ynddo'i hun yn rhwystr mawr i adfywio economaidd. Roedd anghydbwysedd demograffig mawr, gan fod cyfran fawr o'r boblogaeth leol yn ddynion sengl, ac roedd y ddwy ffactor yma wedi arwain at gylch o ddiffyg buddsoddi yn yr ardal.

Cynhaliwyd dadansoddiad o anghenion tai a oedd wedi dangos diffyg tai i deuluoedd yn yr ardal ac anghydbwysedd yn neiliadaeth tai'r ardal. Roedd nifer fawr o dai yn yr ardal mewn perchnogaeth breifat ond mewn cyflwr gwael iawn, ac felly, roedd y broses negodi i brynu'r rhain wedi bod yn hynod o gymhleth ac wedi cymryd llawer o amser. Prynwyd cyfanswm o 120 o dai, y mwyafrif drwy Orchmynion Prynu Gorfodol. Roedd y broses honno wedi cychwyn yn 2013 ac mae'n debyg mai hwn oedd y prosiect adfywio trefol mwyaf cymhleth yng Nghymru yn ymwneud â thai preswyl. Ar ôl cwblhau Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl roedd tua £27miliwn wedi ei fuddsoddi yng ngorllewin y Rhyl yn cynnwys arian gan LlC, y Cyngor Sir, cyrff cyhoeddus eraill a gan y sector preifat.

Yna aeth Peter James (LlC) rhagddo a:-

- Dywedodd mai'r risg fwyaf ar y dechrau oedd ailgartrefu preswylwyr o'r tai a brynwyd drwy orchymyn prynu gorfodol. Fodd bynnag, roedd pob o'r preswylwyr wedi eu hailgartrefu'n llwyddiannus ac ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau negyddol
- Dywedodd fod y prosiect tua 6-7 mis ar ei hôl hi, ond oherwydd natur gymhleth y prosiect a chyflwr gwael rhai o'r tai, a oedd wedi golygu bod

angen gweithredu Gorchmynion Prynu Gorfodol, roedd y llithriant yn ddealladwy ac roedd yn bosibl ei reoli

- Manylodd ynglŷn â’r amserlen, y canlyniadau a gynlluniwyd a chynnydd y gwaith ar bob un o’r 7 parth
- Dywedodd wrth Aelodau fod parthau 3 a 5 bellach wedi eu cynnwys fel un parth mewn ymgais i ddenu diddordeb o’r sector busnes gyda golwg ar ddatblygu amrywiaeth o ddatblygiadau busnes / hamdden a phreswyl
- Amlinellodd y gwahanol fathau a deiliadaeth tai a fyddai’n cael eu hadeiladu neu eu hadnewyddu yn yr ardal
- Rhoddodd drosolwg o’r ymdrechion ar y gweill i sefydlu ethos cymunedol yn yr ardal trwy ddatblygu cymdeithasau tenantiaid / mentrau cydweithredol yn gyfrifol am redeg a rheoli’r tai, a siop gymunedol yn cael ei rhedeg gan breswylwyr ar gyfer preswylwyr
- Manylodd ynglŷn â’r mathau o gyrsiau a oedd yn cael eu cynnal er mwyn paratoi preswylwyr i gyflawni’r dyletswyddau uchod a’u harfogi â’r sgiliau angenrheidiol i wneud y gwaith
- Pwysleisiodd fod cyfathrebu rheolaidd gyda phreswylwyr yn allweddol i lwyddiant y prosiect adfywio gan fod preswylwyr wedi bod yn byw ar “safle adeiladu” am gryn amser
- Eglurodd tra mai nod y prosiect yn y pen draw oedd denu partneriaid sector preifat i’r ardal i fuddsoddi a rhedeg eu busnesau o’r ardal, mai rôl y sector cyhoeddus oedd gosod y sylfaen a dod ag ymdeimlad o falchder ac uchelgais yn ôl i’r ardal a’r gymuned i geisio denu buddsoddiad a diddordeb y sector preifat.
- Dywedodd fod yr amserlen a’r costau cychwynnol ar gyfer y prosiect wedi bod yn seiliedig yn bennaf ar dybiaethau gan nad oedd gan unrhyw un o’r partneriaid bŵer i archwilio cyflwr y tai cyn cyflwyno’r Gorchmynion Prynu Gorfodol. Dim ond ar ôl cyflwyno’r Gorchmynion Prynu Gorfodol ac ar ôl i'r Cyngor feddiannu’r tai y daeth yn amlwg pa mor ddifrifol oedd eu cyflwr. Dysgwyd gwersi drwy gydol y prosiect ac roedd tystiolaeth o ganlyniadau da i breswylwyr a thref y Rhyl yn dechrau cael eu hamlygu.
- Eglurodd fod diddordeb yn cael ei ddangos, am y tro cyntaf ers blynyddoedd, mewn prynu a gosod tai i deuluoedd yn yr ardal; a
- Chadarnhaodd y byddai’r holl bartneriaid yn parhau i ganolbwyntio ar gynlluniau cymdogaeth yn yr ardal er mwyn creu ymdeimlad o falchder a chymuned ymysg y preswylwyr.

Wrth ymateb i gwestiynau gan Aelodau, dywedodd y cynrychiolwyr:

- Fod sylwadau anghywir a ffeithiau anghywir wedi eu hadrodd o safbwynt honiadau fod tai ym mhen gorllewinol y Rhyl wedi eu hysbysebu mewn carchardai. Doedd yr un gymdeithas tai na chorff cyhoeddus arall wedi hysbysebu mewn carchardai
- Cadarnhawyd bod Tai Pennaf yn gweithio’n agos gyda’r gymuned mewn ymgais i leihau a chael gwared ar ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd wedi penodi dau swyddog ymddygiad gwrthgymdeithasol ac roedd yn rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn i honiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn cynnwys gadael sbwriel yn anghyfreithlon

- Dywedwyd bod y Cymdeithasau Tai'n cymryd rhan amlwg mewn digwyddiadau cymunedau ayb lle'r oedd rolau a chyfrifoldeb cymdeithasol a chymunedol preswylwyr yn cael eu pwysleisio a'u hyrwyddo
- Dywedwyd y byddai pobl a oedd wedi bod yn destun cam-drin domestig yn cael cyfle i symud i lety diogel gan asiantaethau yr oedd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gweithio â nhw, neu'n cael mynediad at grwpiau cymorth camdriniaeth
- Pwysleisiwyd nad oedd ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi ei gyfyngu i ardaloedd tai cymdeithasol, roedd yn digwydd drwy'r sir. Roedd y ffigyrau diweddaraf yn dangos bod gostyngiad o 50% yn lefel ymddygiad gwrthgymdeithasol ers y flwyddyn flaenorol, gyda chyfraddau troseddu wedi gostwng 30%
- Sicrhaodd Pennaf Aelodau nad oeddent yn ailgyfeirio eu hymdrechion o weddill Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl i dai ar Stryd Edward Henry. Roedd gwaith wedi dechrau yno yn sgil astudiaeth beilot ar y cyd gyda LlC a oedd wedi dangos bod un tŷ angen sylw ar fyrder. Roedd Pennaf yn hyderus y byddai'r Cyngor yn eu cefnogi yn y gwaith hwn
- Cadarnhawyd y dylid cwblhau tai'r Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol erbyn Medi 2016. Roedd y gwaith o ddarparu'r tai wedi cael ei effeithio gan dywydd gwael a phrinder bricwyr
- Cadarnhawyd bod Coleg y Rhyl yn ymwybodol o'r prinder bricwyr. Cynhaliwyd diwrnodau blasu mewn ysgolion mewn ymgais i ddenu disgyblion i hyfforddi ar gyfer y fasnach. Roedd datblygwyr tai hefyd yn gweithio gyda'r Coleg er mwyn mynd i'r afael â'r prinder hwn
- Roedd contractau ar gyfer Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl yn nodi'n benodol bod angen i gontractwyr a benodwyd gyflogi prentisiaethau er mwyn datblygu sylfaen sgiliau yn y gymuned a'r economi lleol. Byddai'r Prosiect hefyd yn destun Archwiliad Budd Cymunedol gan LlC i werthuso graddfa buddion y Prosiect i'r gymuned a'r economi'n gyffredinol
- Dywedwyd eu bod yn awyddus i weld a fyddai cael amrywiaeth briodol o ddeiliadaeth tai, yn ogystal â thenantiaid yn ymwneud â'r gwaith o reoli eu tai, yn meithrin ymdeimlad o falchder yn yr ardal
- O'r holl dai a brynwyd fel rhan o'r Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl, dywedwyd mai dim ond tua 12 o'r landlordiaid oedd yn byw y tu allan i'r ardal. Roedd tri phrif ddeiliaid portffolio tai yn y Rhyl a'r rheini i gyd wedi eu lleoli ym Mirmingham
- Amlinellwyd eu Polisïau Dyraniadau Tai. Ar gyfer y sector rhent roeddent yn seiliedig ar anghenion tai'r darpar denant a lefel bregusrwydd y teulu. Roedd gwaith yn parhau rhwng y Cyngor a'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gyflwyno Polisi Dyraniadau Cyffredinol ar gyfer tai cymdeithasol. Roedd cydweddoldeb systemau TG wedi bod yn broblem ac roedd Pennaeth Gwasanaeth y Cyngor wrthi'n edrych ar fesurau i oresgyn y problemau hyn a bwrw ymlaen â'r mater
- Eglurwyd bod fforddiadwyedd yn rhan o'r asesiad ar gyfer tŷ mewn rhan-berchnogaeth
- O safbwynt Parth 4, 14-27 John Street, dywedwyd bod datblygwr lleol wedi dangos diddordeb, ond gwaetha'r modd, nid oedd yn gallu cael gafael ar adnoddau ariannol digonol i'w ddatblygu'n unol â manyleb y partneriaid. Serch hynny, bellach roedd gan ddatblygwr lleol bach ddiddordeb mewn datblygu'r safle ac roedd y Cyngor a phartneriaid eraill yn gweithio gyda'r

Cwmni i sicrhau bod y prosiect yn dwyn ffrwyth Y bwriad o hyd oedd i'r safle hwn fod yn safle cymysg, yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol. Pe byddai unrhyw un, ar unrhyw adeg, eisiau newid y cynigion hyn, byddai angen anfon cais i ddiwygio'r Canllawiau Cynllunio Atodol i'r Adran Gynllunio, a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio i gymeradwyo'r amrywiad neu'r newid

- Cadarnhawyd bod diddordeb wedi ei ddangos gan ddatblygwyr ym Mharth 3, gan fod Parth 5 bellach wedi ei gynnwys ynddo. Tra cydnabuwyd bod cynnydd gyda'r Parth hwn wedi bod yn arafach nag a ragwelid, roedd partneriaid yn fwy hyderus bellach y byddai'n cael ei ddatblygu'n unol â'u cynlluniau
- Cadarnhawyd bod y simneiau a ddangoswyd yn y ffotograffau o'r tai preswyl arfaethedig i bwrpas cosmetig yn unig
- O blith y 120 o deuluoedd a oedd wedi symud allan o'r tai yn ardal gorllewin y Rhyl er mwyn gallu cyflawni'r Prosiect, dywedwyd bod 119 ohonynt wedi aros yn y Rhyl, ac 1, ar ei gais ei hun, wedi symud o'r ardal
- Cadarnhawyd bod prisiau prynu yn y Gorchmynion Prynu Gorfodol wedi eu pennu heb allu cael mynediad i'r tai i gynnal arolygon strwythurol, a
- Chadarnhawyd bod y lefel rhent ar gyfer y tai newydd wedi eu gosod ar lefel rhent canolraddol – hanner ffordd rhwng lefelau rhent y Cyngor/Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a lefelau rhent preifat. Ni fyddai gostyngiad yn lefel y rhent yn y dyfodol, ond rhagwelid yn y tymor canolig i hir y byddai nifer o'r tenantiaid yn prynu eu tai.

Ar ôl gorffen trafod, diolchodd y Cadeirydd i'r holl gynrychiolwyr am fod yn bresennol ac am ateb cwestiynau'r Aelodau. Roedd y Cadeirydd a'r Pwyllgor o'r farn y byddai Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl, ar ôl iddo gael ei orffen, yn cyd-fynd yn dda â'r weledigaeth ar gyfer y Rhyl ac roeddent yn sicr y byddai'r Prosiect yn cael ei gwblhau'r llawn maes o law.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y sylwadau uchod, derbyn yr adroddiad a'r cyflwyniad ar y cynnydd hyd yma i ddarparu Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl a datblygiadau arfaethedig yn y dyfodol i ddarparu'r Prosiect yn llawn.*

**3 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer swydd Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau.

Bu i'r Cynghorydd Martyn Holland enwebu'r Cynghorydd Raymond Bartley, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Pat Jones.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cynghorydd Raymond Bartley yn cael ei ethol yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau.*

**4 DATGAN CYSYLLTIAD**

Bu i'r Cynghorydd Joan Butterfield ddatgan cysylltiad ym Mhrosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl.

## 5 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim materion brys.

## 6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ddydd Iau 14 Ebrill, 2016.

Materion yn codi:-

Tudalen 7 – Eitem 6 – Pwynt Mynediad Sengl. Diolchodd y Cadeirydd, ar y Pwyllgor, i'r staff a oedd wedi croesawu'r Aelodau yn ystod yr ymweliad ar 14 Ebrill, 2016. Roedd wedi bod yn addysgiadol iawn.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, bod y Cofnodion yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

## 7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Ynghyd â'r papurau ar gyfer y cyfarfod, rhannwyd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol a rhoi diweddariad ynglŷn â materion perthnasol.

Roedd copi o dempled "ffurflen gais Aelodau" wedi ei chynnwys yn Atodiad 2, roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 a thabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor a gwybodaeth ynglŷn â'r cynnydd o ran eu gweithredu yn Atodiad 4.

Ystyriodd y Pwyllgor ei Raglen Gwaith i'r dyfodol drafft ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol.

Mewn cyfarfod diweddar o Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio, cytunwyd i gynnwys adroddiad ar Fyrddau Diogelu Gogledd Cymru ar raglen y Pwyllgor ar gyfer ei gyfarfod nesaf ar 7 Gorffennaf a bod adroddiad ar Gynllun Lles Sir Ddinbych yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yng nghyfarfod Hydref 2016.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau drosolwg byr o waith y Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

Trafodwyd a diweddarwyd sylwadau'r Pwyllgor ar Grwpiau Herio Gwasanaeth.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, bod y Rhaglen Waith a amlinellir yn Atodiad 1 i'r adroddiad yn cael ei chymeradwyo.*

## 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Rhoddodd y Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones a Meirick Lloyd Davies adborth ar gyfarfod Her Gwasanaeth Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd y buon nhw ynddo'n ddiweddar.

Yn y fan hon, dymunodd y Cynghorydd Raymond Bartley hysbysu Aelodau y byddai Cartref Gofal Preswyl Dolwen yn dathlu 50 mlynedd yr wythnos nesaf.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.55 a.m.**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **7 Gorffennaf 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau/Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru a Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Dyma Adroddiad Blynyddol cyntaf Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (NWSCB) a Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru (NWSAB) (Atodiad 1).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn bartneriaethau statudol sy'n cydlynu a sicrhau effeithiolrwydd gweithgareddau diogelu partneriaid, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Adroddiad Blynyddol NWSCB a NWSAB yn crynhoi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â sefydlu trefniadau diogelu rhanbarthol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn craffu ar Adroddiad Blynyddol NWSCB a NWSAB ac yn gwneud argymhellion ar unrhyw faterion sy'n codi.

3.2 Bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad o fewn blwyddyn sy'n manylu ar y cynnydd ar flaenoriaethau a nodwyd.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae NWSCB a NWSAB yn bartneriaethau statudol sy'n cynnwys y chwe awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru a budd-ddeiliaid allweddol eraill. Dyma Adroddiad Blynyddol cyntaf Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru a Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru (Atodiad 1).

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r trefniadau Diogelu Rhanbarthol yn cyfrannu'n uniongyrchol at y flaenoriaeth gorfforaethol i ddiogelu pobl ddiamddiffyn i'w galluogi i barhau i fyw yn annibynnol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r cyfraniadau i NWSCB a NWSAB eisoes yn cael eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi i'r adroddiad.**

Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb gan nad yw'r adroddiad hwn yn gwneud unrhyw newid i bolisi.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae'r adroddiad hwn yn system ar gyfer ymgynghori â Phwyllgor Archwilio.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y risg fwyaf i NWSCB a NWSAB a'r Awdurdod Lleol yw'r perygl o ddigwyddiad difrifol lle mae un neu fwy o'i asiantaethau partner wedi methu yn eu dyletswyddau i ddiogelu plant a / neu oedolion mewn perygl. Fodd bynnag, mae'n rôl i NWRCB a NWSAB sicrhau bod asiantaethau partner yn cymryd camau rhesymol i ddiogelu'r mwyaf diamddiffyn.

**11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

Mae Erthygl 6.3.4(b) a 6.3.4(d) o Gyfansoddiad y Cyngor ac Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r mater hwn.

**Swyddog Cyswllt:**
Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau
Ffôn: 01824 706149

# Adroddiad cynnydd ar ddatblygiad Byrddau Diogelu Gogledd Cymru Ebrill 2016

## 1. Cyflwyniad i Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru

Ffurfiwyd Bwrdd  Diogelu Plant Gogledd Cymru yn Ebrill 2013 yn dilyn y cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru i ymateb i'r papur gwyn: Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu a datblygu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cafodd y bwrdd rhanbarthol ei fabwysiadu'n llawn yng Ngogledd Cymru ym mis Ebrill 2014 ac mae'n disodli'r Byrddau Diogelu Lleol, a oedd gynt yn 3 yng Ngogledd Cymru.

Mae Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru'n bartneriaeth statudol o chwe awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, y Cwmni Adsefydlu Cymunedol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Iechyd Ambiwlans Cymru a sefydliadau gwirfoddol.

Ers iddo gael ei sefydlu, mae wedi cael ei gadeirio a'i gynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn benodol Jenny Williams, Cyfarwyddwr Strategol y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg. Rhaid i awdurdod lleol arweiniol gynnal y bwrdd diogelu a'i uned fusnes tra bod unrhyw asiantaeth yn gallu cael ei phenodi fel cadeirydd gan y bwrdd. Bydd Conwy'n cadeirio am 12 mis arall tan Ebrill 2017, lle gellir ymestyn ar hyn am dair blynedd arall os bydd y bwrdd yn cytuno. Mae cynnydd ar waith byrddau diogelu wedi cael ei adrodd yn flaenorol trwy brosesau llywodraethu mewnol pob asiantaeth bwrdd. Mae hyn fel arfer ar ffurf adroddiad blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, neu o gwmpas y cyfnod hwn, fodd bynnag, bydd y cyfnod adrodd yn newid yn dilyn gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ym mis Ebrill 2016, i bob mis Gorffennaf, a bydd yn cael ei gyflwyno i'r bwrdd diogelu cenedlaethol. Yn dilyn hyn, bydd yna gyfnod o ystyriaeth gan Lywodraeth Cymru a bydd ymateb terfynol yn cael ei roi, i'w rannu gyda phob sefydliad partner y bwrdd.

Mae'r Cylch Gorchwyl a ddatblygwyd ar gyfer Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru'n hyrwyddo'r angen am atebolrwydd ac yn glir o ran eu diffiniadau o ddwyn i gyfrif. Maent wedi'u dyddio yn Orffennaf 2013 a bydd yn cael ei adolygu yn ystod 2016/17 er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben yn dilyn gweithredu'r ddeddf.

Mae angen datblygu Proffil Rôl ar gyfer pob aelod o'r bwrdd o hyd, y bydd pob aelod o'r bwrdd yn ei dderbyn, a bydd yn tynnu sylw at sut y maent yn atebol yn unigol o ran eu cyfraniad at y bwrdd a mynychu Cyfarfodydd y Bwrdd.

Mae hefyd angen i'r bwrdd ddatblygu Fframwaith Effaith a Pherfformiad a fyddai'n cynorthwyo adrodd ar weithgareddau aelodau'r Bwrdd yn erbyn elfennau o fewn eu proffiliau rôl a fyddai hefyd yn caniatáu i'r bwrdd ddangos gwaith aml-asiantaeth ar lefel strategol.

Caiff busnes y Bwrdd ei reoli drwy Uned Fusnes bwrpasol sy'n cael ei hariannu drwy gyllideb Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru. Cafodd Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ei sefydlu ym mis Mawrth 2015 ac ar hyn o bryd mae'n cynnwys un Rheolwr Busnes, Cydlynydd Busnes a Chymhorthydd Gweinyddol. Oherwydd anawsterau recriwtio, dim ond y Rheolwr Busnes sydd yn ei swydd a benodwyd ym Mawrth 2015. Rhagwelir y bydd yr holl swyddi wedi cael eu penodi erbyn Ebrill 2016.

Mae'r byrddau diogelu yn dibynnu ar rwydwaith o asiantaethau i gefnogi'r agenda diogelu ac mae tri grŵp darparu lleol yn cefnogi'r bwrdd, mae'r rhain yn cael eu cadeirio a'u gweinyddu gan Benaethiaid Gwasanaeth perthnasol ar draws y chwe awdurdod lleol.

## 2. Cyflwyniad i Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru

Mae Adran 134 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynnu bod Byrddau Diogelu Oedolion rhanbarthol yn eu lle. Bydd hyn yn rhoi diogelu oedolion ar sail statudol debyg i'r un ar gyfer diogelu plant.

Yn ôl y Ddeddf, amcanion y Bwrdd Diogelu Oedolion yw:

- Amddiffyn oedolion yn ei ardal sydd ag anghenion gofal a chymorth (p'un a yw awdurdod lleol yn bodloni unrhyw un o'r anghenion hynny: a
- Sy'n profi, neu sydd mewn perygl o, gamdriniaeth neu esgeulustod,
- Atal yr oedolion hynny o fewn ei ardal a grybwyllir ym mharagraff (a)(i) rhag dod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso

Mae rheoliadau wedi nodi'r ardaloedd hynny yng Nghymru sydd i gael Byrddau Diogelu ('ardaloedd Byrddau Diogelu'); mae'r rhain yn gyson ag ôl-troed y sefydliadau sector cyhoeddus rhanbarthol ar draws Gogledd Cymru.


Penderfynodd Gogledd Cymru, cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym, y byddai'n dechrau ar y cam cynllunio i sefydlu Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru. Cynhaliwyd seminar ar 25 Ionawr 2013 a chanlyniad y seminar oedd datblygu dewisiadau o amgylch strwythur Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru. Yr hoff ddewis oedd dilyn strwythur a gytunwyd arno ar gyfer Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru Diogelu ac fe gafodd y dysgu o'r datblygiad hwnnw ei ddefnyddio i symud ymlaen yn gyflymach ar ddatblygiad Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru; roedd y model dwy haen hwn yn un o ddau strwythur rhanbarthol a gafodd ei werthuso gan Brifysgol Sheffield ar ran Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Roedd y tri grŵp darparu lleol i'w creu gan y chwe awdurdod lleol, gan ffurfio fel Gwynedd ac Ynys Môn; Conwy a Sir Ddinbych; Sir y Fflint a Wrecsam. Cynigiwyd hefyd y dylai meysydd fel hyfforddiant, perfformiad ac archwilio, polisïau ac adolygiadau achosion difrifol gael eu gwneud yn rhanbarthol, gan ddilyn yr un patrwm unwaith eto â diogelu Plant. Trafodwyd y papur opsiynau a'r adroddiad 'sgript gyffredin' ym Mwrdd Rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd ar 2 Mai 2013 ac fe adroddodd bob partner drwy eu prosesau adrodd sefydliadol eu hunain.

Ar 16 Gorffennaf 2014, cynhaliwyd sesiwn datblygu Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru, cafodd hon ei hwyluso gan Jan Howarth ac edrychodd y grŵp ar rôl y Bwrdd a'i grwpiau rhanbarthol/is-grwpiau. Cafodd y rhain eu harchwilio o dan bedwar pennawd - Paratoi, Atal, Diogelu a Mynd ar drywydd rhywbeth. Galluogodd allbynnau'r sesiwn hon ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru.

Rôl Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru yn fras yw:

- Ychwanegu gwerth a gwella canlyniadau ar gyfer oedolion diamddiffyn sydd angen eu diogelu a'u hamddiffyn
- Datblygu a darparu cyfeiriad strategol rhanbarthol
- Cyfeirio a monitro grwpiau rhanbarthol o ran hyfforddiant a datblygu gweithlu; polisïau a gweithdrefnau; cyfathrebu ac ymgynghori ac adolygiadau ymarfer oedolion
- Datblygu a monitro fframwaith rheoli perfformiad
- Darparu her a chymorth i asiantaethau rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol
- Cytuno ar gyllideb, a'i rheoli
- Rhyngweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Cenedlaethol

Mae strwythur Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru fel a ganlyn ac erbyn hyn mae'r grŵp Hyfforddiant a'r grwpiau Cyfathrebu ar y cyd â'r Bwrdd Diogelu Plant.




Yn y sesiwn datblygiad, enwebwyd Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel Cadeirydd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru yn ystod amser 'cychwyn' y Bwrdd hwn, ac fe gynigiwyd a chytunwyd ar hyn yn hwyrach ymlaen yng nghyfarfod cyntaf y bwrdd ar 3 Medi 2014. Etholwyd Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio a Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn Is-gadeirydd.

## 3. Crynodeb a Gwerthusiad o effeithiolrwydd a gweithgareddau Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru

### Llywodraethu

Mae Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru wedi sefydlu ei hun ym maes llywodraethu, trefniadau busnes a blaenoriaethau strategol. Yn y gorffennol, fel Byrddau Diogelu Lleol, byddai'r byrddau'n monitro perfformiad yn erbyn y safonau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru o fewn yr Offeryn Hunanasesu a Gwella. Ni ystyrir yr offeryn hwn yn addas at y diben ar gyfer monitro perfformiad bwrdd rhanbarthol ac mae'r bwrdd wedi bod ar flaen y gad wrth adolygu / datblygu Offeryn Hunanasesu a Gwella rhanbarthol diwygiedig gyda'r Athro Jan Howarth.

Mae dwy sesiwn ddatblygiadol wedi cael eu cynnal gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn hyn o beth. Ar y ddau achlysur, gwahoddwyd AGGCC ac fe wnaethant fynychu'r sesiynau. Fe wnaeth Cadeiryddion a Rheolwyr Busnes ar draws y byrddau diogelu rhanbarthol eraill ledled Cymru gymryd rhan hefyd.

Mae angen datblygu Proffiliau Rôl ar gyfer Aelodau'r Bwrdd a phroses gyflwyno ddiffiniedig i aelodau newydd hefyd.

Mae'r Bwrdd yn dod ynghyd chwe gwaith y flwyddyn, ac mae cofnodion yn cael eu paratoi'n brydlon yn dilyn pob Cyfarfod Bwrdd ac yn cael eu hadolygu gan y Rheolwr Busnes a'r Cadeirydd o fewn cyfnod byr o amser. Mae cofnodion yn cael eu hanfon at Aelodau'r Bwrdd a maes o law maent yn cael eu cyhoeddi ar wefan y bwrdd diogelu. http://www.bwrdddiolgelugogleddcymru.cym

**Y Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant**

Caiff y Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant ei gadeirio gan Gadeirydd Annibynnol a chaiff ei lywodraethu gan Ganllawiau Adolygiad Ymarfer Plant Llywodraeth Cymru a ddisodlodd Pennod 10 o Ddiogelu Plant; Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004.

Mae'r Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant yn cyfarfod bob yn ail fis ac wedi datblygu proses atgyfeirio a gwneud penderfyniadau i reoli achosion yn gyson ar draws y rhanbarth, mae manylion y broses ar wefan y bwrdd.

Mae'r canllaw newydd yn hyrwyddo'r defnydd o Fforymau Proffesiynol Aml-asiantaeth lle mae gwersi a nodwyd ar gyfer ymarferion y dyfodol yn gallu cael eu dysgu. Mae'r broses ar gyfer Fforymau Proffesiynol Aml-asiantaeth yn caniatáu dull sy'n llawer mwy tryloyw a chadarn i adolygu achosion nad ydynt yn bodloni'r trothwy ar gyfer adolygiad ymarfer plant cryno neu estynedig.

Mae'r Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant wedi ystyried yr atgyfeiriadau canlynol:

| | |
|---|---|
| **Adolygiad Ymarfer Plant Cryno** | 2 |
| **Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig** | 6 |
| **Fforwm Proffesiynol Aml-asiantaeth** | 5 |
| **Dim Adolygiad** | 4 |
| **Angen Rhagor o Wybodaeth** | 1 (sydd wedyn wedi arwain at ddim adolygiad) |

**Cwestiynau Perfformiad**

| | |
|---|---|
| Sawl achos newydd sydd wedi cael eu hystyried ar gyfer adolygiad yn ystod 2015/16?<br>Sawl adolygiad a gwblhawyd yn 2015/16 | 3 |
| Sawl adolygiad cryno / estynedig a gafodd eu cwblhau o fewn yr amserlen 6 mis? | - |

| | |
|---|---|
| Sawl adolygwr / cadeirydd allanol sydd wedi cael eu comisiynu gennym yn ystod 2015/16 | 1 |
| Sawl Digwyddiad Dysgu sydd wedi cael eu cynnal? | 3 |
| A oedd presenoldeb priodol ym mhob digwyddiad Dysgu? | Oedd, ond fe wnaeth adolygwyr nodi bod yna anghysondeb o ran sut roedd asiantaethau yn paratoi eu staff ar gyfer y Digwyddiad Dysgu. |
| Sawl adolygiad sydd wedi cael eu cyhoeddi hyd yn hyn | 3 |
| Sut mae'r Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant wedi lledaenu'r Dysgu? | Cynhaliwyd sioe deithiol Adolygiad Ymarfer Plant ym mis Rhagfyr 2015. Cyflwynwyd tri diwrnod o themâu allweddol a ddeilliodd o'r adolygiadau hyd yn hyn i ymarferwyr, gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant a'r Rheolwr Busnes |
| Sut mae'r Cynlluniau Gweithredu yn cael eu monitro? | Maent yn cael eu monitro trwy Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant a thrwy'r LDG. Ar gyfer 2016/17 bydd yna raglen i'r dyfodol ar gyfer pob cynllun gweithredu. |

**Is-grŵp Polisi a Gweithdrefn**

Mae gan yr is-grŵp Polisi a Gweithdrefn gynllun gwaith â ffocws ac mae wedi gweithredu'r dogfennau protocol canlynol:

- Protocol Gogledd Cymru ar gyfer darparu therapi cyn prawf ar gyfer plant sy'n dystion
- Protocol Gogledd Cymru ar gyfer datrys gwahaniaethau barn proffesiynol
- Protocol Gogledd Cymru ar gyfer Cefnogi Plant wrth weithio gyda rhieni â phroblemau iechyd meddwl difrifol a / neu sy'n camddefnyddio sylweddau
- Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc sydd mewn perygl o niwed, neu sy'n dioddef niwed drwy ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Protocol Gogledd Cymru ar gyfer rheoli cwynion sy'n ymwneud â chynadleddau amddiffyn plant
- Gweithdrefn Gogledd Cymru ar gyfer diogelu plant drwy reoli troseddwyr sydd wedi edrych ar ddelweddau plant yn cael eu cam-drin
- Gweithdrefn cwynion cyffredinol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

Mae Protocol Gogledd Cymru ar gyfer Cefnogi Plant wrth weithio gyda rhieni â phroblemau iechyd meddwl difrifol a / neu sy'n camddefnyddio sylweddau yn mynd i gael ei adolygu (Rhagfyr 2015). Bydd hwn yn gyfrifoldeb Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae hwn yn brotocol pwysig ac yn un sydd angen ei sicrhau ei fod yn addas at y diben gan ei fod wedi ymddangos mewn nifer o achosion adolygiad diweddar.

Sefydlwyd Grŵp Tasg Addysg yn y Cartref Etholedig a'i fwydo i Ganllawiau Llywodraeth Cymru. Cyfeiriwyd y grŵp tasg hefyd i safoni protocolau a gweithdrefnau rhanbarthol mewn perthynas ag Addysg yn y Cartref Etholedig. Fodd bynnag, nid yw wedi bod yn bosibl cyflawni dull rhanbarthol o ganlyniad i gynrychiolaeth wael.

Mae grŵp tasg wedi cael ei sefydlu i ddatblygu canllawiau ar Ddiogelu Plant Anabl a dull rhanbarthol gydag Asesiadau Risg Cyn Geni. Mae angen i asiantaethau sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli yn y grwpiau tasg hyn.

Bydd Polisi a Gweithdrefn yn datblygu Canllawiau Rhan 4 yn ystod 2016/17.

**Apêl Cofrestru Cynhadledd Achos**
Mae Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru wedi ystyried dwy apêl yn erbyn cofrestru mewn cynhadledd achos. Roedd un yn fater Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a gafodd ei gyflwyno gan nain ar ochr y fam, ar ran y fam, a'r ail gan fam o Gyngor Sir y Fflint. Fe wnaeth y ddau wrandawiad apêl gadarnhau argymhelliad y gynhadledd. Fodd bynnag, ym mhob apêl, gwnaed argymhellion mewn perthynas â'r adran dadansoddiad o adroddiadau cynhadledd achos y gweithiwr cymdeithasol a chymryd cofnodion.

**Grŵp Hyfforddiant a Gweithlu ar y Cyd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru a Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru**
**Pwrpas** Grŵp Hyfforddiant a Gweithlu Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yw datblygu a gweithredu Strategaeth Hyfforddiant a Gweithlu Diogelu Plant ac Oedolion Rhanbarthol, mewn ymateb i'r newid yn y rôl o ddarparu hyfforddiant i hyrwyddo hyfforddiant addas. Dim ond yn ddiweddar y cafodd ei uno fel grŵp ar y cyd ac mae angen sefydlu cyllideb y cytunir arni ar gyfer y grŵp.

**Grŵp Cyfathrebu ac Ymgynghori ar y Cyd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru a Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru**
Ym mis Chwefror 2016, unodd y Grŵp Cyfathrebu ac Ymgynghori fel is-grŵp oedolion a phlant ar y cyd. Cadeirydd y grŵp hwn yw

Yn ystod 2015, datblygwyd logo ar gyfer y ddau Fwrdd. Cyflawnwyd gwaith adeiladu a datblygu'r wefan yn ystod 2015, gyda'r wefan yn cael ei lansio ym mis Gorffennaf 2015. Mae angen rhagor o ddatblygu ar y wefan o ran diogelu oedolion. Mae angen datblygu rhagor ar y wefan fel canolbwynt gwybodaeth a chyfeirio ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Ym Medi 2015, cyflwynodd yr Uned Fusnes yn hyfforddiant JIT Gwynedd ac Ynys Môn am rôl a chyfrifoldebau'r Bwrdd. Gellid cyflwyno'r cyflwyniad hwn ar draws yr asiantaethau, yn enwedig gyda recriwtiaid newydd i'r timau.

Ym mis Hydref 2015, cynhaliodd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru gynhadledd flynyddol ar bwnc Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Roedd y prif siaradwyr yn cynnwys Dr Helen Beckett o Brifysgol Swydd Bedford a'r Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru. Roedd 141 o gynrychiolwyr ar draws yr asiantaethau yn bresennol yn y gynhadledd, ac roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn, gyda 75% yn adrodd eu bod yn ystyried y gynhadledd yn dda iawn a 25% yn credu bod y gynhadledd yn dda.

Ym mis Rhagfyr 2015, cynhaliwyd sioe deithiol tri diwrnod gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru i gyflwyno'r negeseuon a'r themâu allweddol sydd wedi dod i'r amlwg o'r adolygiadau hyd yma. Roedd y themâu yn cynnwys y risg o or-optimistiaeth, cydymffurfiaeth wedi'i chuddio a syndrom dechrau eto mewn achosion esgeulustod; plant a addysgir gartref a'r broses atgyfeirio. Cafodd y sioeau teithiol eu cyflwyno i 150 o gynrychiolwyr ac unwaith eto roedd yr adborth yn gadarnhaol.

Yn ystod yr wythnos yn dechrau 14 Mawrth 2016, bydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn cynnal WYTHNOS YMWYBYDDIAETH CAMFANTEISIO’N RHYWIOL AR BLANT gyda saith ysgol uwchradd wahanol ar draws Gogledd Cymru. Cyfeirir adnoddau addysg at athrawon (taflen). Bydd taflen person ifanc hefyd yn cael ei datblygu, yn cyfeirio gwasanaethau cefnogi. Bydd llythyr yn cael ei anfon at rieni pob disgybl blwyddyn 9 yn yr ysgol briodol.

## 4. Cynllun Gweithredu Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Gogledd Cymru

Lansiwyd Cynllun Gweithredu Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn swyddogol ar 15 Hydref 2015 yng nghynhadledd flynyddol Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru, a oedd yn canolbwyntio ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Roedd NWSC yn un o'r byrddau Cymreig cyntaf i ddatblygu cynllun gweithredu rhanbarthol, ac mae'r cynllun hwn wedi cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r cynllun cenedlaethol.

Mae Cynllun Gweithredu Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant wedi bod yn eitem ar raglen Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ym mis Tachwedd 2015 ac Ionawr 2016, ac mae cynnydd a sgôr RAG Cynllun Gweithredu Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant wedi cael eu diweddaru’n unol â hynny.

Mae angen sefydlu Grŵp Gweithredol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant gan gytuno ar Gylch Gorchwyl a Chadeirydd.

Nid oes cyllideb wedi’i dyrannu ar gyfer darparu Cynllun Gweithredu Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Sbardun Cynllun Gweithredu Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yw Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ac oherwydd anawsterau recriwtio o fewn yr Uned Fusnes, mae wedi bod yn anodd hybu'r agenda hwn ar y cyd â dyletswyddau eraill y bwrdd.

Ni ragwelwyd darparu Cynllun Gweithredu Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant pan gytunwyd ar lefelau staffio'r Uned Fusnes, ac felly mae angen ystyried yr adnoddau o ran sbarduno a darparu Cynllun Gweithredu Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant.

## 5. Crynodeb a Gwerthusiad o effeithiolrwydd a gweithgareddau Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru

### Llywodraethu

Mae Llywodraethu Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru bellach wedi'i sefydlu ac mae'r is-grwpiau a grwpiau darparu’n adrodd i'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar ei gynllun busnes sy'n cael ei fonitro'n rheolaidd gan y Bwrdd . Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob yn ail fis ac mae strwythur i’r rhaglenni, mae'n fwriad gan y bwrdd i gyhoeddi'r cofnodion ar wefan y bwrdd diogelu.

### Grŵp Adolygiad Ymarfer Oedolion

Mae Grŵp Adolygiad Ymarfer Oedolion yn cael ei gadeirio gan Gadeirydd Annibynnol ac maent yn cyfarfod bob yn ail fis ac yn y broses o ddatblygu prosesau atgyfeirio a gwneud penderfyniadau yn unol â chanllaw dros dro Llywodraeth Cymru. Disgwylir y bydd y ffurflen atgyfeirio wedi'i llenwi i gyd ac yn dal cymaint o fanylion ag y bo modd, byddai hyn yn cynnwys adroddiadau gan unrhyw sefydliad arall sy'n ymwneud â'r achos.

Mae’r grŵp nawr yn ystyried prosesau adolygu bob sefydliad partner er mwyn deall yn well sut maent yn gwneud y penderfyniad, p’un a oes angen atgyfeiriad Adolygiad Ymarfer Oedolion ai peidio.

Dylai Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru ofyn am adroddiad gan yr AGGCC ar lefelau presennol o gydymffurfiaeth cartrefi gofal yng Ngogledd Cymru, gyda'r disgwyliad y bydd AGGCC yn gweithredu pan nad oes cydymffurfiad digonol.

Dylid rhoi hyfforddiant ymwybyddiaeth amddiffyn oedolion i'r holl staff sy'n dod i gysylltiad â chlaf / cleient ym mhob asiantaeth iechyd a gofal, a'r heddlu ac AGGCC, a dylai hyn gael ei ddiweddaru'n rheolaidd.

Dylai hyfforddiant arbenigol trylwyr gael ei roi i'r rhai sy'n rheoli achosion amddiffyn oedolion (Rheolwyr Arweiniol Dynodedig) ac ar gyfer Ymchwilwyr amddiffyn oedolion. Ni ddylai ymchwiliadau gael eu cynnal gan staff heb hyfforddiant ymchwiliad amddiffyn oedolion

Dylai Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru ddatblygu polisi a gweithdrefnau ar y cyd rhanbarthol ar gyfer cefnogi pobl sy'n esgeuluso eu hunain

Dylai Awdurdodau Lleol adolygu a gwella eu trefniadau cyfredol ar gyfer derbyn a rheoli atgyfeiriadau yn ystod oriau swyddfa a chan y gwasanaeth y tu allan i oriau;

Hyd yn hyn mae dau Adolygiad Ymarfer Oedolion wedi'u cwblhau, gyda chynlluniau gweithredu manwl.

Roedd y themâu fel a ganlyn:

Mae'r adolygiadau yn cael eu cadeirio gan gadeirydd annibynnol o asiantaeth partner bwrdd ac fel arfer mae dau adolygwr yn cael eu penodi.

**Polisïau a Gweithdrefnau**
Mae'r is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau'n cael ei gadeirio gan Tony Graham, Cyngor Sir y Fflint. Mae gan y grŵp Gylch Gorchwyl a rhaglen waith y cytunwyd arni. Mae'r grŵp wedi cadarnhau'r protocolau canlynol:

- Protocol Pryderon Cynyddol rhanbarthol
- Protocol pryderon proffesiynol rhanbarthol

Ar hyn o bryd mae'r grŵp yn gweithio ar:

- Ddogfen trothwy rhanbarthol ar gyfer atgyfeiriadau POVA a safoni ansawdd atgyfeiriadau POVA a datblygu canllawiau ar beth yw atgyfeiriad da
- Polisi / canllaw hunan-esgeuluso rhanbarthol
- Safoni rhoi gwybod am ddata

Meysydd eraill o fewn y rhaglen waith, ond sydd heb ddechrau arnynt eto:

- Datblygu protocol/canllaw rhannu gwybodaeth aml-asiantaeth y cytunwyd arno.

## 6. <u>Blaenoriaethau Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru</u>

Yn ystod dau ddiwrnod datblygu busnes ym mis Gorffennaf a mis Hydref 2014, mabwysiadodd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru'r dull 3-P (Prevent, Protect and Prepare)

yn ei gynllunio busnes. Sef Atal, Amddiffyn a Pharatoi sy'n cael eu cynnwys yn nhri datganiad cenhadaeth y bwrdd.

1. Bydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn **ATAL** plant yn ei ardal rhag bod mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed.
2. Bydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn **AMDDIFFYN** plant yn ei ardal sy'n profi neu mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed.
3. Bydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn **BAROD** i fod yn bennaf gyfrifol am herio asiantaethau i sicrhau bod mesurau effeithiol yn eu lle i **AMDDIFFYN** ac **ATAL**

Cafodd y tri maes canlynol eu nodi fel blaenoriaethau strategol ar gyfer y Bwrdd

1. Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a phlant sydd ar goll o ofal
2. Plant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol
3. Cam-drin Domestig

Fodd bynnag, mewn cyfnodau o newid, mae'n bwysig bod Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn gweithredu'n effeithiol ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol ac felly mae hyn yn cael ei gynnwys fel y bedwaredd flaenoriaeth strategol.

## 7. Blaenoriaethau Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru

Canlyniadau blaenoriaeth ar gyfer Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru yn 2016/17 yw:

- Bod canlyniadau ar gyfer oedolion sy'n destun cynllun amddiffyn oedolion yn gwella o ganlyniad i'r holl asiantaethau ar draws Gogledd Cymru yn darparu gwasanaethau amddiffyn oedolion o safon uchel yn gyson, yn unol ag arferion gorau y cytunwyd arnynt
- Mae Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru'n cael sicrhad o ansawdd y gwasanaethau diogelu ar draws Gogledd Cymru
- Bod y risg y bydd oedolion diamddiffyn yn dioddef neu'n dod yn destun camdriniaeth neu esgeulustod yn cael ei leihau gan fod y staff a'r cyhoedd yn gwbl ymwybodol o'r angen i ddiogelu ac amddiffyn, ac yn gwybod beth i'w wneud os oes mater diogelu
- Mae Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru'n gweithredu'n effeithiol ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol
- Mae canlyniadau ar gyfer oedolion diamddiffyn yn cael eu gwella gan fod y gweithlu yn ddiogel, yn fedrus, yn rhagweithiol, ac yn canolbwyntio ar y teulu.

## 8. Y gyllideb ar gyfer 2015/16

Mae'r byrddau diogelu yn cael eu hariannu ar sail statudol gan bob sefydliad partner ac fe gyfeirir at fformiwla ariannu diwygiedig yn rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Bydd y fformiwla cyllido hon â goblygiadau i'r asiantaethau gan y bydd yn ofynnol ariannu diogelu oedolion. Bydd y byrddau yn ystyried adroddiad manwl ar yr opsiynau cyllido yn eu cyfarfodydd Mawrth 2016.

## 9. Ymgysylltu gyda Byrddau a Phartneriaethau eraill

Mae Rheolwyr Busnes Byrddau Diogelu Plant ledled Cymru yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Mae'r cyfarfodydd hyn yn werthfawr er mwyn cael trosolwg o sut y mae byrddau ac unedau

busnes eraill yn gweithredu. Mae'r Rheolwyr Busnes yn rhannu enghreifftiau o arfer da a thempledi ac ati.

Mae Rheolwr Busnes Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn cyfarfod gyda Rheolwr Busnes Bwrdd Lleol Diogelu Plant Caer a Gorllewin Swydd Gaer i drafod materion trawsffiniol yn rheolaidd. Bu cyfarfod hefyd rhwng Cadeirydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru a chadeirydd annibynnol Bwrdd Lleol Diogelu Plant Caer a Gorllewin Swydd Gaer ac mae cyfarfodydd chwarterol yn y dyfodol hefyd wedi eu trefnu.

Bydd Adolygiad Achos Difrifol o Fwrdd Lleol Diogelu Plant Caer a Gorllewin Swydd Gaer yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ym Mawrth 2016 oherwydd goblygiadau a godwyd o fewn yr adolygiadau, gan fod y plentyn wedi byw yng Ngogledd Cymru yn ystod rhan o'r amserlen a ystyriwyd o fewn yr adolygiad.

Mae Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru wedi cyfarfod gyda Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru, yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae angen datblygu ymhellach ar y berthynas rhwng y ddau fwrdd er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a sicrhau nad oes dyblygu.

## 10. <u>Edrych ymlaen at 2016/17</u>

Mae Cynllun Busnes Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru wedi cael ei gytuno arno, a bydd y canlyniadau meintiol ac ansoddol yn mesur sut y mae'r Bwrdd yn perfformio yn ystod 2016/17, a phan fydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn adrodd i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2017, bydd y canlyniadau hyn yn mesur y gwahaniaeth y mae'r Bwrdd wedi gwneud wrth Atal ac Amddiffyn unigolion rhag perygl o niwed.

Fodd bynnag, mae llwyddiant Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn dibynnu ar ymrwymiad ac ymgysylltiad pob awdurdod yn chwarae ei ran yng ngwaith y Bwrdd.

Mae'n debygol y bydd y grŵp Adolygiad Ymarfer Plant yn parhau i fod yn brysur yn ystod y flwyddyn sydd i ddod ac mae'n bwysig bod yr hyn a ddysgwyd o'r adolygiadau yn cael eu lledaenu mewn ffordd debyg i'r hyn a gyflwynwyd yn ystod y sioeau teithiol ym mis Rhagfyr 2015. Fodd bynnag, efallai y bydd angen ystyried ymestyn hyd y sioeau teithiol gan fod adborth o'r digwyddiadau 3 diwrnod hyn yn 2015 yn dweud eu bod wedi'u rhuthro ormod ac angen cymryd rhan am fwy na dwy awr ym mhob lleoliad.

Gan edrych ymlaen at 2016/17, mae angen ystyried sut i ddal profiad a dysgu adolygwyr o'r broses er mwyn datblygu a sicrhau bod y broses yn cael ei gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon. Gydag uned fusnes wedi'i staffio'n llawn, bydd yn hanfodol monitro ac adrodd ar gyflwyno cronolegau, ymatebion ac i sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys o fewn yr adroddiad ar brif bwyntiau'r Adolygiad Ymarfer Plant i'r Bwrdd bob chwarter.

Mae gan Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru rôl bwysig i yrru a chyflwyno Cynllun Gweithredu Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Bydd sefydlu Grŵp Gweithredol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn rhan ganolog o hyn. Gan edrych ymlaen at 2016/17, mae angen rhoi sylw i benodi Cadeirydd i'r Grŵp Gweithredol hwn ar unwaith.

Bydd angen i Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru gryfhau ei gysylltiadau gyda defnyddwyr gwasanaeth a'r gymuned ac un cam o gyflawni hyn fydd yn ystod wythnos Camfanteisio'n

Rhywiol ar Blant Mawrth 2016, pan fydd yr Uned Fusnes yn cynnal gweithdai gyda disgyblion ysgol ar draws saith ysgol ledled Gogledd Cymru.

Bydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn cael mynediad at wasanaethau 'Ffrindiau' Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a fydd yn gweithredu fel seinfwrdd mewn perthynas â deunyddiau marchnata a chyhoeddi.

Bydd angen i Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ddefnyddio technoleg ddigidol ac yn enwedig y cyfryngau cymdeithasol i wella'r rhyngweithio ag ymarferwyr, pobl ifanc a'r gymuned.

Bydd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru yn dod yn fwrdd statudol ar 6 Ebrill 2016 pan ddaw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym.

Fel yn achos Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru, mae llwyddiant Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru a'i is-grwpiau rhanbarthol ac isranbarthol yn dibynnu ar ymrwymiad ac ymgysylltiad partneriaid.

Citizens' Voice - bydd gwaith yn cael ei ddatblygu i geisio ymgysylltiad a chyfranogiad cleientiaid ac aelodau o'r cyhoedd mewn perthynas â diogelu oedolion.

Mae holiadur POVA drafft wedi cael ei ddatblygu i'w ddefnyddio gydag unigolion sydd wedi bod trwy'r broses POVA i gasglu eu safbwyntiau / adborth ar eu taith ac i helpu nodi unrhyw feysydd o arfer sydd angen sylw ac i hyrwyddo meysydd o arfer da a nodwyd.

Bydd gweithio o gwmpas mynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern yn un o'r meysydd datblygu o fewn diogelu oedolion.

Bydd cynllun busnes cyfredol Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru yn cael ei adolygu ac mae gwaith yr is-grwpiau a grwpiau darparu'n cynyddu. Rhagwelir y bydd hyfforddiant Adolygiad Ymarfer Oedolion yn ystod y flwyddyn nesaf, fodd bynnag, mae angen trafod a chytuno ar ffrwd ariannu Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru fel mater o frys gan y Bwrdd.

Mae cynhadledd yn cael ei chynllunio ar gyfer mis Medi 2016 a bydd y grŵp cyfathrebu a chyfranogi ar y cyd yn ei threfnu

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **7 Gorffennaf 2016** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Cydlynydd Archwilio** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Cydlynydd Archwilio** |
| **Teitl:** | **Rhaglen Waith Archwilio** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn cyflwyno drafft rhaglen waith i'r dyfodol y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau i'r aelodau ei hystyried.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen waith i'r dyfodol, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar faterion perthnasol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd ac yn cymeradwyo, diwygio neu'n newid ei raglen gwaith i'r dyfodol fel y gwêl yn briodol.

## 4. Manylion am yr adroddiad.

4.1 Mae Erthygl 6 Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn nodi cylch gorchwyl, swyddogaethau ac aelodaeth pob Pwyllgor Archwilio, tra bo rheolau'r gweithdrefnau i bwyllgor archwilio wedi'u gosod yn Rhan 4 y Cyfansoddiad.

4.2 Mae'r Cyfansoddiad yn amodi bod yn rhaid i bwyllgorau archwilio'r Cyngor baratoi ac adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith i'r dyfodol. Drwy adolygu a blaenoriaethu materion mae modd i aelodau sicrhau fod y rhaglen waith yn cyflwyno rhaglen dan arweiniad yr aelodau.

4.3 Arfer sydd wedi'i fabwysiadu yn Sir Ddinbych ers nifer o flynyddoedd yw bod pwyllgorau archwilio'n cyfyngu ar nifer yr adroddiadau a ystyrir mewn unrhyw gyfarfod i uchafswm o bedwar, yn ogystal ag adroddiad rhaglen waith y Pwyllgor ei hun. Nod y dull hwn yw hwyluso cael trafodaeth fanwl ac effeithiol ar bob pwnc.

4.4 Yn y blynyddoedd diweddar mae Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi tynnu sylw at yr angen i gryfhau rôl archwilio ar draws llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan

gynnwys defnyddio archwilio fel modd o ymgysylltu â phreswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Wrth fynd ymlaen disgwylir i archwilio ymgysylltu'n well ac yn amlach â'r cyhoedd gyda golwg ar sicrhau penderfyniadau gwell a fydd yn y pen draw yn arwain at well canlyniadau i ddinasyddion. Yn y dyfodol, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn mesur effeithiolrwydd archwilio wrth gyflawni'r disgwyliadau hyn.

4.5 Gan ystyried y weledigaeth genedlaethol ar gyfer archwilio ac ar yr un pryd ganolbwyntio ar flaenoriaethau lleol, mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio (GCIGA) wedi argymell y dylai pwyllgorau archwilio'r Cyngor, wrth benderfynu ar eu rhaglenni gwaith, ganolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

- arbedion ar y gyllideb;
- cyflawni amcanion y Cynllun Corfforaethol (gyda phwyslais arbennig ar y modd o'u cyflawni yn ystod cyfnod o galedi ariannol);
- unrhyw eitemau eraill a gytunwyd gan y Pwyllgor Archwilio (neu'r GCIGA) fel blaenoriaeth uchel (yn seiliedig ar y meini prawf profion 'PAPER' - gweler ochr gefn y 'ffurflen gynnig aelodau' yn Atodiad 2 ) a;
- Materion brys, materion na ellir eu rhagweld neu faterion â blaenoriaeth uchel

Ffurflenni Cynnig ar gyfer Archwilio

4.6 Fel y crybwyllwyd ym mharagraff 4.2 uchod, mae Cyfansoddiad y Cyngor yn gofyn i bwyllgorau archwilio baratoi ac adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith i'r dyfodol. Er mwyn cynorthwyo'r broses o flaenoriaethu adroddiadau, os yw'r swyddogion o'r farn fod pwnc yn haeddu'r amser i gael ei drafod ar agenda fusnes y Pwyllgor, mae'n rhaid iddynt wneud cais ffurfiol i'r Pwyllgor i ystyried derbyn adroddiad ar y pwnc hwnnw. Gwneir hyn trwy gyflwyno 'ffurflen gynnig' sy'n egluro pwrpas, pwysigrwydd a chanlyniadau posibl y pynciau a awgrymir. Does dim un ffurflen gynnig wedi dod i law oddi wrth swyddog i'w ystyried yn y cyfarfod cyfredol.

4.7 Er mwyn gwneud gwell defnydd o amser archwilio drwy ganolbwyntio adnoddau pwyllgorau i archwilio testunau'n fanwl, gan ychwanegu gwerth drwy'r broses o wneud penderfyniadau a sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer preswylwyr, penderfynodd y GCIGA y dylai'r aelodau, yn ogystal â swyddogion, gwblhau 'ffurflenni cynnig ar gyfer archwilio' yn amlinellu pam eu bod yn credu y byddai'r testun yn elwa o fewnbwn archwilio. Gellir gweld copi o 'ffurflen gynnig' yn Atodiad 2. Mae ochr gefn y ffurflen hon yn cynnwys siart lif sy'n rhestru'r cwestiynau y dylai aelodau eu hystyried wrth baratoi i gynnig eitem ar gyfer archwilio, ac y dylai pwyllgorau eu gofyn wrth benderfynu ar addasrwydd testun arfaethedig i'w gynnwys ar raglen gwaith i'r dyfodol archwilio. Os, ar ôl cwblhau'r broses hon, y penderfynir nad yw'r testun yn addas i'w archwilio'n ffurfiol gan bwyllgor archwilio, yna gellir

ystyried dulliau eraill o rannu'r wybodaeth neu archwilio'r mater e.e. darparu 'adroddiad gwybodaeth', neu os yw'r mater yn un o natur leol gellir ei archwilio gan y Grŵp Aelodau Ardal (GAA) perthnasol. Yn y dyfodol ni fydd unrhyw eitemau'n cael eu cynnwys ar raglen gwaith i'r dyfodol heb i 'ffurflen gynnig ar gyfer archwilio' gael ei chwblhau, ac i'r testun gael ei gymeradwyo i'w gynnwys ar y rhaglen gan un ai'r Pwyllgor neu'r GCIGA. Mae cymorth ar gael i lenwi'r ffurflenni gan y Cydlynydd Archwilio.

Rhaglen Waith i'r Dyfodol y Cabinet

4.8 Wrth benderfynu ar eu rhaglen waith i'r dyfodol mae'n bwysig fod pwyllgorau archwilio yn ystyried amserlen rhaglen waith y Cabinet. Ar gyfer y diben hwn, mae rhaglen waith y Cabinet wedi ei chynnwys yn Atodiad 3.

Datblygiad Penderfyniadau'r Pwyllgor

4.9 Yn Atodiad 4 mae tabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor ac yn cynghori aelodau am eu gweithrediad.

Partneriaeth Diogelwch Cymunedol

4.10 Yn wreiddiol roedd adroddiad blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i'w gyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfod hwn. Yn dilyn derbyn cais oddi wrth y swyddog perthnasol cytunodd y Cadeirydd i ohiro cyflwyniad yr adroddiad tan gyfarfod y Pwyllgor ym mis Hydref, gweler Atodiad 1.

**5. Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio**

Dan drefniadau archwilio'r Cyngor mae Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio (GCIGA) yn gweithredu fel pwyllgor cydlynu. Mae'r Grŵp yn cynnal ei gyfarfod nesaf ar 28 Mehefin. Adroddir ar lafar i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 7 Gorffennaf ar unrhyw faterion a gyfyd a fydd yn effeithio ar waith y Pwyllgor hwn.

**6. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd archwilio effeithiol yn gymorth i'r Cyngor gynnal y blaenoriaethau corfforaethol yn unol ag anghenion cymunedau a dymuniadau trigolion. Bydd datblygu ac adolygu'r rhaglen waith gydlynol yn barhaus yn cynorthwyo'r Cyngor i ddarparu ei flaenoriaethau corfforaethol, i wella canlyniadau i breswylwyr tra hefyd yn dygymod â thoriadau llym yn y gyllideb.

**7. Faint fydd hyn yn costio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'n bosib y bydd yn rhaid i wasanaethau neilltuo amser swyddog i gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'r eitemau a nodwyd yn y rhaglen waith a chydag unrhyw gam gweithredu yn dilyn ystyried yr eitemau hynny.

**8. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Ni chynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb er diben yr adroddiad hwn gan nad yw ystyried rhaglen waith i'r dyfodol y Pwyllgor yn debygol o gael effaith andwyol neu annheg ar bobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi'u diogelu.

**9. Pa ymgynghori sydd wedi digwydd?**

Does dim angen cynnal ymgynghoriad ar yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'r adroddiad ei hun a'r ystyriaeth a roir gan y Pwyllgor i'w raglen waith ar gyfer y dyfodol yn gyfystyr ag ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor o ran ei raglen waith.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes risg wedi ei ganfod o ran y Pwyllgor yn ystyried ei raglen waith. Fodd bynnag, wrth adolygu ei raglen waith yn rheolaidd gall y Pwyllgor sicrhau bod meysydd sy'n peri pryder yn cael eu hystyried a'u harchwilio fel y maent yn dod i'r amlwg a bod argymhellion yn cael eu gwneud er mwyn mynd i'r afael â nhw.

**11. Grym i wneud Penderfyniad**

Yn unol ag Erthygl 6.3.7 Cyfansoddiad y Cyngor mae'n rhaid i bwyllgorau archwilio'r Cyngor baratoi rhaglen waith a'i hadolygu.

**Swyddog Cyswllt:**
Cydlynydd Archwilio
Rhif ffôn: (01824) 712554
e-bost: rhian.evans@sirddinbych.gov.uk

**Note: Items entered in italics have <u>not</u> been approved for submission by the Committee.  Such reports are listed here for information, pending formal approval.**



| Meeting | Lead Member(s) | Item (description / title) | | Purpose of report | Expected Outcomes | Author | Date Entered |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 6 Oct | **Cllr. Julian Thompson-Hill** | 1. | Commercial Partnership for the Revenues and Benefits Service | To review the Partnership's progress and in particular the new business element of the proposal and the Welsh Language service provision | An evaluation:<br>(i) of whether the financial and commercial benefits of the partnership agreement have been realised; and<br>(ii) that the service is delivering the level of service expected which conforms to the Council's relevant policies in lines with the Heads of Terms Agreement | Rod Urquhart | December 2014 (by County Council in line with Cabinet's recommendation – allocated to the Committee by the SCVCG January 2015) |
| | **Leader (Denbighshire Strategic** | 2. | Denbighshire Well-being Plan | To monitor the progress to date with the delivery of the Well-being Plan for | Recommendations with respect to improving | Alan Smith/Emma Horan | By SCVCG April 2016 |

| Meeting | Lead Member(s) | Item (description / title) | | Purpose of report | Expected Outcomes | Author | Date Entered |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Partnership Board – rep to attend?)** | | | Denbighshire | performance and effective partnership working with a view to improving the well-being of the county's residents, and informing the development of the new Well-being Plan in accordance with the Well-being of Future Generations (Wales) Act. | | |
| | **Cllr. David Smith** | 3. | Community Safety Partnership **[Crime and Disorder Scrutiny Committee]** | To detail the Partnership's achievement in delivering its 2015/16 action plan and its progress to date in delivering its action plan for 2016/17. The report to include financial sources and the progress made in spending the allocated funding. | Effective monitoring of the CSP's delivery of its action plan for 2015/16 and its progress to date in delivering its plan for 2016/17 will ensure that the CSP delivers the services which the Council and local residents require | Alan Smith/Sian Taylor | July 2015 (rescheduled May 2016) |

| Meeting | Lead Member(s) | Item (description / title) | | Purpose of report | Expected Outcomes | Author | Date Entered |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 24 November | **Cllr. Bobby Feeley** | 1. | Protection of Vulnerable Adults Annual Report 2014/15 | To consider the POVA annual report, and information in place to meet the statutory requirements of the Social Services and Well-being Act 2014 and an evaluation of the financial and resource impact of the Supreme Court's 2014 Judgement on deprivation of liberty on the Service and its work | An evaluation of whether the Authority is meeting its statutory duty with respect to adult safeguarding and has sufficient resources to undertake this work along with the additional work in the wake of the Supreme Court's judgement | Phil Gilroy/Alaw Pierce/Nerys Tompsett | November 2015 |
| | **Cllr. David Smith** | 2. | CCTV Partnership | To detail the governance arrangements for the partnership and the partnership's effectiveness in delivering the service since its establishment, including its impact in fighting crime (report to include Police statistics on crime incident numbers, no of views by them and the outcomes of them viewing footage) | Assurances that the partnership has appropriate governance arrangements to safeguard all member organisations, to deliver an effective service and to be fully self-funding and sustainable in the long term | Graham Boase/Emlyn Jones/Graham Smith | January 2016 |
| | **Cllr. Bobby** | 3. | Strategy for | To present the draft strategy | A robust corporate | Phil Gilroy/Gwynfor | April 2016 |

| Meeting | Lead Member(s) | Item (description / title) | | Purpose of report | Expected Outcomes | Author | Date Entered |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Feeley** | | Supporting Independence in Denbighshire | for consideration by members | approach for supporting independence that will ensure that vulnerable people are supported to live independently and safely in their communities | Griffiths | |
| | | | | | | | |
| 19 January 2017 | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| 2 March | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| 6 April | **Cllr. Bobby Feeley** | 1. | Single Point of Access (SPoA) | To detail progress in developing the service, identifying any areas of concern and funding streams | Supporting seamless joint working with a view to increasing prevention activities to protect and support vulnerable people to live independently and safely within their communities | Phil Gilroy/Cathy Curtis-Nelson | April 2016 |
| | | | | | | | |
| 22 June | | | | | | | |
| | | | | | | | |

Partnerships Scrutiny Committee Forward Work Plan

Appendix 1

| Meeting | Lead Member(s) | Item (description / title) | | Purpose of report | Expected Outcomes | Author | Date Entered |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 September | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| 2 November | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| 14 December | | | | | | | |

**Future Issues**

| Item (description / title) | Purpose of report | Expected Outcomes | Author | Date Entered |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| GP Out of Hours Service [next scheduled meeting with BCUHB – item originally discussed by communities in December 2015] | To detail the responsiveness of the service – caller waiting times when telephoning, appointment waiting times, effectiveness of the service in keeping patients away from A&E and in referring people to the district general hospital if necessary. Also information on staffing levels, any problems identified and measures put in place to address them | Ensuring residents are protected and have access to required health services when they need them with a view to improving their life outcomes and easing pressures on social care services | BCUHB | By SCVCG March 2016 |
| HASCAS Report on Tawelfan (Spring 2016 date tbc dependent upon the report's publication) | To consider HASCAS' findings with respect to the failings in care and treatment of patients on the ward | The identification of lessons learnt from what happened at Tawelfan for the purpose of safeguarding the Council and residents against such failings in care in future | HASCAS/BCUHB/Nicola Stubbins | By SCVCG October 2015 |
| Update following conclusion of inquiry undertaken by the National Crime Agency in to historic abuse in North Wales Children's' Care Homes | To update the Committee of the outcome of the National Crime Agency (NCA) investigation in to the abuse of children in the care of the former Clwyd County Council, and to determine whether any procedures require revision. | Determination of whether any of the Council's safeguarding policies and procedures need to be revised in light of the NCA's findings | Nicola Stubbins | November 2012 |

**For future years**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |

**Information/Consultation Reports**

| **Information / Consultation** | **Item (description / title)** | **Purpose of report** | **Author** | **Date Entered** |
|---|---|---|---|---|
| Information | Communities First Update | To report on the progress of the Communities First programme of work in Denbighshire detailing how the programme is working to lift people out of poverty and support individuals into to employment | Co-op Group | July 2015 |

22/06/16 - RhE

**Note for officers – Committee Report Deadlines**

| Meeting | **Deadline** | Meeting | **Deadline** | Meeting | **Deadline** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| 6 October | **22 October** | 24 November | **10 November** | 19 January 2017 | **5 January 2017** |

Partnerships Scrutiny Work Programme.doc

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Atodiad 2**

| Ffurflen Gynnig ar gyfer Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Archwilio | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR ARCHWILIO** | |
| **AMSERLEN I'W HYSTYRIED** | |
| **TESTUN** | |
| **Beth sydd angen ei graffu arno (a pham)?** | |
| **Ydi'r mater yn un o bwys i drigolion/busnesau lleol?** | **YDI/NAC YDI** |
| **Ydi craffu yn gallu dylanwadu ar bethau a'u newid?** (Os 'ydi' nodwch sut rydych chi'n meddwl y gall craffu ddylanwadu neu newid pethau) | **YDI/NAC YDI** |
| **Ydi'r mater yn ymwneud â gwasanaeth neu faes sy'n tanberfformio?** | **YDI/NAC YDI** |
| **Ydi'r mater yn effeithio ar nifer fawr o drigolion neu ardal fawr o'r Sir?** (Os 'ydi', rhowch syniad o faint y grŵp neu'r ardal yr effeithir arni) | **YDI/NAC YDI** |
| **Ydi'r mater yn gysylltiedig â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor?** (Os 'ydi' nodwch pa flaenoriaethau) | **YDI/NAC YDI** |
| **Hyd y gwyddoch, oes yna rywun arall yn edrych ar y mater hwn?** (Os 'oes', nodwch pwy sy'n edrych arno) | **OES/NAC OES** |
| **Os derbynnir y testun ar gyfer craffu, pwy fyddai arnoch chi eisiau eu gwahodd e.e. Aelod Arweiniol, swyddogion, arbenigwyr allanol, defnyddwyr y gwasanaeth?** | |
| **Enw'r Cynghorydd/Aelod Cyfetholedig** | |
| **Dyddiad** | |

**Ystyried addasrwydd pwnc ar gyfer craffu**

**Ffurflen Gynnig / Cais a dderbyniwyd**

(dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r rhesymau dros wneud cais)

**Ydi o'n bodloni'r gofynion canlynol?**

- **Diddordeb Cyhoeddus** – ydi'r mater o bwys i drigolion?
- **Effaith**– fedr craffu yn gael effaith ar bethau a'u newid?
- **Perfformiad** – ydi o'n wasanaeth neu faes sy'n tanberfformio?
- **Graddfa** – ydi o'n effeithio ar nifer o drigolion neu ardal ddaearyddol fawr?
- **Ailadrodd** – ydi'r mater yn destun craffu/ymchwiliad gan berson neu gorff arall?

**NAC YDI**

Dim gweithredu pellach gan y Pwyllgor Archwilio. Gellir ei gyfeirio at gorff arall neu ofyn am adroddiad er gwybodaeth.

**YDI**

- Penderfynu ar y canlyniadau a ddymunir
- Penderfynu ar gwmpas a swmp y gwaith craffu sydd ei angen a'r dull mwyaf priodol o graffu (h.y. adroddiad pwyllgor, ymchwiliad grŵp tasg a gorffen neu aelod cyswllt ac ati)
- Os penderfynir sefydlu grŵp tasg a gorffen, dylid penderfynu ar amserlen yr ymchwiliad, pwy fydd yn rhan o'r ymchwiliad, beth yw'r gofynion ymchwilio, a oes angen cyngor arbenigol a thystion, a beth yw'r trefniadau adrodd ac ati.

Cabinet Forward Work Plan

**Appendix 3**

| Meeting | Item (description / title) | | Purpose of report | Cabinet Decision required (yes/no) | Author – Lead member and contact officer |
|---|---|---|---|---|---|
| **28 June** | 1 | Finance Report | To update Cabinet on the current financial position of the Council | Tbc | Councillor Julian Thompson-Hill / Richard Weigh |
| | 2 | Corporate Plan Performance Report 2015/16 Q4 | To consider progress against the Corporate Plan | Tbc | Cllr Julian Thompson-Hill / Alan Smith |
| | 3 | Reactive Maintenance Framework | To approve the maintenance framework | Yes | Councillor Julian Thompson Hill / Elaine Rizzi |
| | 4 | Final Revenue Outturn 2015/16 | To report the final revenue position. | Tbc | Councillor Julian Thompson Hill / Richard Weigh |
| | 5 | Update to Contract Procedure Rules in respect of Works' Contracts | To approve changes to delegated powers | Yes | Councillor Barbara Smith / Tom Booty / Lisa Jones |
| | 6 | Cabinet Member Scheme of Delegation | To consider the responsibilities delegated to lead members | Yes | Lisa Jones / Gary Williams |
| | 7 | Items from Scrutiny Committees | To consider any issues raised by Scrutiny for Cabinet's attention | Tbc | Scrutiny Coordinator |
| | | | | | |
| **26 July** | 1 | Faith Based Secondary Position | To seek approval to | Yes | Councillor Eryl |

Cabinet Forward Work Plan

| Meeting | Item (description / title) | | Purpose of report | Cabinet Decision required (yes/no) | Author – Lead member and contact officer |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | commence the formal stage of public consultation on proposals to close Blessed Edward Jones Catholic High School and to open a new Joint Faith school | | Williams / Karen Evans |
| | 2 | Tyn y Celyn, Llanbedr Dyffryn Clwyd, Rhuthun | To declare surplus to the requirements of the Agricultural Estate and thereafter to dispose | Yes | Councillor Julian Thompson-Hill / Mair Jones |
| | 3 | Lodge Farm, Denbigh | To declare surplus to the requirements of the Agricultural Estate and thereafter to dispose to the sitting Tenant | Yes | Councillor Julian Thompson-Hill / Mair Jones |
| | 4 | Finance Report | To update Cabinet on the current financial position of the Council | Tbc | Councillor Julian Thompson-Hill / Richard Weigh |
| | 5 | Items from Scrutiny Committees | To consider any issues raised by Scrutiny for Cabinet's attention | Tbc | Scrutiny Coordinator |
| | | | | | |
| **27 Sept** | 1 | Finance Report | To update Cabinet on the current financial position of the Council | Tbc | Councillor Julian Thompson-Hill / Richard Weigh |

Cabinet Forward Work Plan

| Meeting | Item (description / title) | | Purpose of report | Cabinet Decision required (yes/no) | Author – Lead member and contact officer |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2 | Items from Scrutiny Committees | To consider any issues raised by Scrutiny for Cabinet's attention | Tbc | Scrutiny Coordinator |
| **25 Oct** | 1 | Finance Report | To update Cabinet on the current financial position of the Council | Tbc | Councillor Julian Thompson-Hill / Richard Weigh |
| | 2 | Corporate Plan Performance Report 2016/17 Q1 | To consider progress against the Corporate Plan | Tbc | Cllr Julian Thompson-Hill / Alan Smith |
| | 3 | Items from Scrutiny Committees | To consider any issues raised by Scrutiny for Cabinet's attention | Tbc | Scrutiny Coordinator |
| | | | | | |
| **15 Nov** | 1 | Finance Report | To update Cabinet on the current financial position of the Council | Tbc | Councillor Julian Thompson-Hill / Richard Weigh |
| | 2 | Items from Scrutiny Committees | To consider any issues raised by Scrutiny for Cabinet's attention | Tbc | Scrutiny Coordinator |
| | | | | | |
| **13 Dec** | 1 | Finance Report | To update Cabinet on the current financial position of the Council | Tbc | Councillor Julian Thompson-Hill / Richard Weigh |
| | 2 | Corporate Plan Performance Report 2016/17 Q2 | To consider progress against the Corporate Plan | Tbc | Cllr Julian Thompson-Hill / Alan Smith |
| | 3 | Items from Scrutiny Committees | To consider any issues | Tbc | Scrutiny Coordinator |

| Meeting | Item (description / title) | | Purpose of report | Cabinet Decision required (yes/no) | Author – Lead member and contact officer |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | raised by Scrutiny for Cabinet's attention | | |
| | | | | | |

*<u>Note for officers – Cabinet Report Deadlines</u>*

| *Meeting* | ***Deadline*** | *Meeting* | ***Deadline*** | *Meeting* | ***Deadline*** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| *June* | ***14 June*** | *July* | ***12 July*** | *September* | ***13 September*** |

<u>Updated 16/06/16 - KEJ</u>

Cabinet Forward Work Programme.doc

**Appendix 4**

## Progress with Committee Resolutions

| Date of Meeting | Item number and title | Resolution | Progress |
|---|---|---|---|
| **26 May 2016** | **2. West Rhyl Housing Improvement Project** | ***RESOLVED*** *that subject to the above observations, to receive the report and presentation on the progress to date with delivering the West Rhyl Housing Improvement Project and proposed future developments to deliver the Project in its entirety.* | Lead Member and officers advised of the outcome |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag